

Lôn Terfyn

Cymeriadau

Shân – 20au cynnar

Tom – 30au cynnar

Ramin – 20au hwyr

Defnyddir sgrin ar gefn y llwyfan i daflunio darluniau a fideo.

Act 1 Fflat Tom.

Mae gwely sofffa gyda chwilt a chlustogau llwyd arno, a chwpwrdd bach a lamp arno wrth ymyl y gwely. Ar wal gefn yr ystafell mae ffenest gyda sillff a bleindiau metel. Heblaw am y teledu, cadair gymharol foethus a bag ffa (bean bag) glas, nid oes llawer mwy o bethau yn yr ystafell.

Mae'n dywyll yn y fflat. Dim ond ychydig o olau dydd sy'n pelydru drwy'r bleindiau. Mae Tom yn cysgu yn y gwely.

Sŵn goriad yn troi yn y clo. Daw Shân i mewn. Mae hi'n cario bagiau plastig. Nid yw'n cynnau'r golau.

Mae'n rhoi'r bagiau plastig ar lawr cyn cerdded o gwmpas yr ystafell. Mae'n codi clustog sydd ar y llawr a'i rhoi ar y gwely. Edrycha ar Tom yn cysgu. Mae'n ceisio twtio'r cwilt yn ysgafn, rhag ei ddeffro. Eistedda ar ochr y gwely yn ofalus, cyn cyffwrdd ei wallt yn ysgafn. Ochneidia Tom yn ei gwsg, a symud ychydig.

Cwyd Shân oddi ar y gwely'n sydyn. Mae'n cerdded at y bleindiau ac yn eu hagog yn gyflym. Llenwir yr ystafell a golau dydd. Mae Tom yn deffro.

Tom: Ach!

Shân: Ti'n gwbod faint o gloch 'di?

Tynna Tom y cwilt dros ei ben.

Shân: Iŵ-hŵ?

Tom: Cau geg.

Shân: Glywist ti fi?

Tom: Be?

Shân: Ti'n gwbod faint o gloch 'di?

Tom: 'M yn poeni.

Shân: Ddim yn poeni am dy job?

Tom: Be?

Shân: Ma' hannar y dwrnod 'di mynd.

Tynna ei ben uwchben y cwilt.

Tom: Cau geg medda fi!

Saib.

Mae Shân yn gwybod na ddylai hi holi ymhellach.

Tom: Off heddiw.

Shân: Off?

Tom: Ia, off. *Day off.* Off. Dallt?

Shân: Dallt. 'Udist ti ddim byd ddoe.

Tom: Pam fyswn i?

Shân: Jyst meddwl ella fysa chdi'n —

Tom: 'Di o'm o dy fusnas di, na'di.

Shân: Ond —

Tom: Felly pam fyswn i'n deud?

Shân: Oce.

Saib.

Mae Tom yn codi ar ei eistedd.

Tom: A'th hi'n hwyrach nag o'n i wedi'i ddisgwyl lawr yn pyb.

Shân: Fedra i ogleuo'r lysh arna chdi o fa'ma hyn.

Tom: Dwi'n drewi?

Shân: Hymian.

Mae'n ceisio'i arogli ei hun.

Tom: Alla i'm ogleuo dim ... bach o BO, ella.

Shân: Ar dy wynt di ma'r ogla lysh. Ma'n amhosib i chdi ogleuo fo dy hun, meddan nhw.

Tom: Pwy 'di nhw?

Shân: Y bobol sy'n gwbod.

Tom: Malu cachu.

Shân: Dim fi sy'n deud.

Mae'r ddau yn dechrau ymddwyn yn chwareus a'i gilydd.

Tom: Fysa'r nhw 'ma yn licio mi fynd am gawod?

Shân: Ti'm isio pechu nhw, nag o's?

Tom: Ty'd yma.

Mae'n neidio ar y gwely.

Shân: Ma'r cwilt 'ma'n stel.

Tom yn ei thynnu tuag ato.

Tom: Swil 'wan.

Shân yn rhoi cusan sydyn ar ei foch.

Tom: Mwy.

Shân: Na.

Tom: Pam?

Shân: Dwi'm isio.

Tom: Pam?

Shân: Na, ddim 'wan.

Tom: Pryd?

Shân: Dw'mbo'.

Tom: Dyna ti'n ddeud bob tro.

Saib.

Tom: Cym on.

Shân: Na, Tom!

Mae Shân yn codi oddi ar y gwely. Mae hi'n mynd at y bagiau plastig i'w cadw.

Tom: Be 'sgen ti fan'na?

Shân: Negas.

Tom: Fedra i brynu bwyd fy hun.

Shân: 'Mond amball beth sy 'ma.

Tom: Ti'n meddwl 'mod i'n *hopeless case*.

Shân: Nadw.

Tom: Fyswn i ddim efo fi chwaith.

Shân: Ti'n rhoi geiria yn fy ngheg i 'wan.

Tom: Ti am i mi roi wbath arall?

Shân: Sori?

Tom: Yn dy geg di?

Mae Shân yn edrych arno, ond tydi hi ddim yn ateb.

Tom: 'Sdim rhaid i chdi fynd i jolihotio a phrynu crap i mi eto. Ti yn cofio bo' chdi ddim yn byw yma, dwyt?

Shân: Dwi'n aros 'ma ers wythnosa.

Tom: Dydan ni ddim 'di cytuno i ddim byd.

Shân: Ti'm yn hapus 'mod i yma?

Tom: 'Udis i hynna?

Shân: Swnio felly.

Tom: Ti'm yn dallt.

Shân: Dwi'n fa'ma yn amlach na dwi adra.

Tom: Wyt. Ond dydan ni heb gytuno i chdi symud fewn.

Shân: Ti'n iawn. *Saib.* Dydw i'm yn dallt.

Mae Shân yn cadw'r bagiau oddi ar y llwyfan. Mae Tom yn gweiddi ar ei hol.

Tom: Faint ydi hi, 'ta?

Shân: Faint 'di be?

Tom: Faint o gloch 'di?

Mae Shân yn ôl ar y llwyfan.

Shân: Hannar dydd. Pan ddois i fewn.

Tom: Shit, yndi?
Shân: 'Udis i fod hannar y dwrnod 'di mynd.
Tom: 'Im ots.
Shân: Dipyn o sesh felly.
Tom: Neithiwr?
Shân: Ia.
Tom: Mm.
Shân: Efo'r hogia fu'st ti?
Tom: Ia. Y, na. Do'ddan nhw i gyd ddim yna.
Shân: Pwy oedd 'na 'ta?
Tom: Be uffar 'di'r *twenty questions* 'ma?
Shân: 'Mond holi.
Tom: 'Sna'm byd i ddeud.
Shân: Dim byd?
Tom: Na.
Shân: O ia, naethoch chi ista'n pyb drw nos, yfad fatha pysgod a do's 'na'm hanas 'im byd. Gwirion dwi am ofyn.
Tom: Paid bod yn sarci. 'Di o'm yn siwtio chdi.
Shân: Pam?
Tom: Meddwl bo' chdi'n gwbod yn well.
Shân: A dwi ddim?
Saib.
Shân: O'dd 'na gwis?
Tom yn ochneidio.
Tom: Blydi hel, os neith o gau dy geg di ...
Shân: 'Mond isio clwad dy hanas di dwi.
Tom: Ryw jarff yn canu yno.
Shân: Ia?
Tom: Da i ddim. O'n i methu clwad dim o'dd Cosmo a Wil Bach yn ddeud a fynta'n nadu.
Shân: Cosmo a Wil o'dd efo chdi, 'lly.
Tom: 'Udis i hynna gynna.
Shân: Do? *Saib fer.* Fi sy ddim yn cofio, ma' siŵr. Jyst y locals, 'lly?
Tom: Na, o'dd 'na dipyn o bobol ddiarth yno.
Shân: O?
Tom: Saeson. O'ddan nhw'n ddigon clen. Rhyw griw o Pacis. Cymyd y lle drosodd.
Shân: Be?
Tom: Fu bron mi ddeud 'than nhw lle i fynd.
Shân: Chei di'm – ti'm i fod i ddeud hynna.
Tom: Ga i ddeud be bynnag licia i yn fy local fy hun.
Shân: Dwi'm yn licio'r gair 'na.
Tom: (*yn ei hanwybyddu*) O'ddan nhw'n codi crips arna i. Ti'm yn gwbod be ma' nhw'n neud 'ma.
Shân: Ti'n mwydro.
Tom: Yndw? 'Sgen ti'm syniad. Ma' nhw'n casglu yn y llefydd 'ma, yng nghefn gwlad.
Shân: A gneud be?
Tom: Trenio.
Shân: Sut fath o drenio?
Tom: I fod yn blydi *terrorists*, debyg!
Shân: Yng Nghymru?
Tom: Ceredigion, Pembroke ... rhai mor agos a Bala. Neud fi'n sâl.
Shân: 'Di pawb ddim fel'na. Criw bach ydyn nhw.
Tom: Ma' nhw'n bla dros bob man.
Shân: Ma' mwy o Saeson yma, 'sw'n i'n ddeud.
Tom: Ond ma' petha'n newid.
Shân: Be sy am newid?
Tom: Ma'r byd yn newid, dydi, Shân. Dwi'n gallu ei deimlo fo. Ma'r bobol go iawn 'di dechra ca'l asgwrn cefn. Dangos i'r idiys, poli-shit-ians pwy 'di'r bos go iawn. Fydd ddim rhaid i rywun fyw mewn ofn. Byw

yn eu pentra, yn eu gwlad eu hunain mewn ofn.

Shân: Ofn be? Dwi ddim ofn.

Tom: Ffacin imigrants.

Shân: 'Di hynna'm yn neis.

Tom: Dwi'm yn neis.

Saib.

Mae Tom yn nesau at Shân. Gafaela yn ei llaw a'i mwytho.

Tom: Shân, rhaid i chdi edrach ar ol dy hun. Ti'm yn gwbod be sy rownd y gornal, na phwy sy'n byw lawr lon 'di mynd. Ti'm yn gwbod pwy i drystio. *Mae'n ei chofleidio.* Fedra i'm dy amddiffyn di drw'r amsar.

Shân: Dyna pam ti 'fo gwn?

Mae'n edrych arni yn sydyn.

Tom: Sut ti'n gwbod bod gen i wn?

Mae golwg o banig ar wyneb Shân.

Shân: 'Nes i ddim trio busnesu ... chwilio am fatris i'r remot yn y cwpwrdd bach o'n i. Fyswn i byth yn busnesu ar bwrpas.

Mae Tom yn ei thawelu.

Tom: Hei, hei. Ty'd rŵan. Paid a phoeni. Dwi'n gwbod na fysat ti ddim.

Shân: Ti'm yn flin?

Tom: Pam fysa chdi'n son am y peth os bysa chdi'n meddwl hynna?

Shân: 'Dwn i'm.

Tom: Mae o'n beth da.

Shân: Da?

Tom: Bo' chdi'n gwbod amdana fo.

Shân: Dwi'm yn dallt pam fod o gen ti ... yn y tŷ.

Tom: Ddim yn dallt?

Shân: Mae o'n fy nychryn i. Dwi'm yn teimlo'n gyfforddus fod o yn y tŷ. Bo' chdi efo un.

Tom: Paid a bod yn wirion. 'Sdim rhaid i chdi fod ofn. 'Na i ddysgu chdi.

Dy ddysgu di sut i iwsio fo.

Mae'r syniad yma yn ei dychryn fwyfwy.

Shân: I be?

Tom: I amddiffyn dy hun, 'de! *One man with a gun can control a hundred without one.* Ti'n gwbod pwy 'udodd hynna?

Mae Shân yn ysgwyd ei phen.

Tom: Lenin. 'Nest ti ddim hanas yn ysgol?

Shân: Addysg Gref.

Tom: Pa! Wast ar amsar.

Shân: Ti 'rioed 'di meddwl sut beth fysa bod yn un o'r *hundred*?

Saib.

Tynna Tom ei grys.

Tom: Dwi'n mynd i folchi.

Golau'n pylu.

Eistedda Shân ar y bag ffa. Mae'n gwyllo'r teledu. Mae penawdau'r newyddion yn cael eu taflunio ar y wal sydd ar gefn y llwyfan.

Y Prif Weinidog yn cyflwyno gorchymyn llym yn erbyn mewnfudo.

Mae'r Prif Weinidog wedi arwyddo gorchymyn sy'n gwahardd unrhyw ffoaduriaid a mewnfudwyr rhag dod i Brydain am gyfnod amhenodol.

Mae'r Llywodraeth eisoes yn erlyn y rhai sydd wedi ymgartrefu yma yn anghyfreithlon.

Daw Tom ar y llwyfan yn rhwbio tywel ar ei wallt. Mae'n mynd at y cwpwrdd bach ger y gwely, cynnau'r lamp ac edrych y tu mewn i un o'r droriau. Mae'n rhoi ei law i mewn, a gwenu. Mae sylw Shân wedi ei hoelio gan y newyddion.

Shân: Ydi hyn yn digwydd?

Caea Tom y ddrôr yn ofalus

Tom: Be sy? *Attack* arall? Yn lle? *Scum*.

Shân: Nage. Jest, sbia arna fo.

Eistedda ar y gadair a gwylio am ychydig.

Tom: O leia ma' rhywun efo digon o fols i'w herio nhw. Dyna fo, 'li, mae o'n dangos pwy 'di bos. Gwlad ni 'di hi, ni pia'r deud.

Shân: Sut ma' hyn yn bosib?

Pennawd: Daw'r gorchymyn ar ol i Arlywydd America gyhoeddi bod y gwaith o adeiladu'r wal ar y ffin rhwng America a Mecsico wedi ei gwblhau.

'They're bringing drugs, they're bringing crime, they're rapists.'

Tom: Ma' pawb ofn deud y gwir. Ma' hwn yn deud y gwir. Dim o'r cachu *politically correct* 'ma.

Pennawd: 'Build that wall. Build that wall. Build that wall.'

Mae Tom yn chwerthin.

Tom: Diawl yn cracio fi fyny! Lej.

Pennawd: 'We have made America great again.'

Tom: Ei di i nol can o'r ffrij i mi?

Nid yw Shân yn ymateb.

Golau'n pylu.

Golau'n codi. Oriau man y bore. Dim ond ychydig o olau artiffisial y stryd sy'n pelydru drwy'r bleindiau. Mae Tom yn cysgu, ond mae Shân yn aflonydd. Cwyd ar ei heistedd ac edrych o'i chwmpas. Edrycha ar Tom. Mae hi'n clywed rhywbeth. Dechreua wrando yn astud. Mae'n symud o gwmpas yr ystafell wrth geisio dilyn y sŵn ac yn rhoi ei chlust yn erbyn y waliau.

Shân: Crafu.

Mae'n copian ar y llawr wrth geisio gwrando eto.

Shân: Sŵn crafu ...

Mae Tom yn tynnu'r cwilt dros ei ben.

Shân: Tom!

Dim ymateb.

Shân: Ma' nhw'n rhedag. Tom!

Mae'n grwgnach. Mae'n ceisio ei ddeffro.

Shân: Deffra!

Tom: Be t'isio? Dos 'nol i gysgu.

Shân: Ti'n 'i glwad o?

Tom: Be?

Shân: Y sŵn 'na.

Cwyd Tom yn sydyn ar ei eistedd.

Tom: Pwy sy 'na?

Shân: Neb.

Tom: Oes 'na rywun wrth y drws?

Mae'n agor dror y cwpwrdd bach.

Shân: Na! Nag o's. Dim rhywun. Rwbath.

Tom: (*yn flin*) Paid a gneud hynna eto!

Shân: Sori.

Tom: Be ti'n feddwl ti'n neud? Ddychrynist ti'r shit allan ohona i.

Shân: Ond ti ddim yn ei glwad o?

Tom: 'Mond dy sŵn di'n malu cachu.

Shân: Go iawn 'wan?

Tom: Nadw.

Shân: Dwi'n clwad petha?

Tom: Ti yn, ofiysli! Paid a troi'n seico arna fi.

Mae Tom yn plannu ei hun yn ol o dan y cwilt. Eistedda Shân ar y llawr ger un o'r waliau, yn ceisio meddwl a ydi hi'n dychmygu'r sŵn.

Shân: Ma' nhw'n rhedag o gwmpas. Gwich, gwich, gwich. Gwichian.
Golau'n pylu.

Act 2

Ar y twyni ar y traeth.

Mae'n agosau at doriad gwawr. Yn ystod yr olygfa bydd y llwyfan yn goleuo'n raddol wrth iddi wawrio. Mae'r brwyn yn chwythu yng ngwynt y bore.

Eistedda Shân ynghanol y brwyn ar y twyni.

Shân: Sŵn y Mor ... Min y Traeth. Hafan ... Brig y Don, Porth Ewyn. Tŷ Halen ac Awel y Mor! Wedyn ... Moorings, Ivy Dale, Sea Gulls ... Mizzen Top! (*Mae'n chwerthin*) Mizzen Top! Lle ma' nhw'n feddwl ma' nhw, St Ives? Dwi'n nabod y daith lawr pentra i'r traeth 'ma fatha'r crycha ar gefn fy llaw. Sylwi ar y manylion bach. Y botal lefrith blastig sy 'di ca'l ei chwthu o'r bocs ailgylchu, potal Stella 'di ca'l ei dympio mewn pot bloda yn oria man ryw fora Sul. Edmygu sut ma' pobol wedi cynllunio eu gerddi, cymryd ffansi at liwia pastel rhimyn y ffenestri, a chymyd cipolwg slei ar y cwpwl sy'n gwatsiad y teli. Nabod bob tŷ o'r tu allan ... ond ddim y bobol tu fewn. Cregyn gwag 'di'r rhan fwy ohonyn nhw. Ond be fedrwn ni neud am y peth? Ganddyn nhw hawl newid yr enwa, ma' siŵr, os ydyn nhw'n talu. Talu drw'u trwyna. Ac am be? Pythefnos bob ha'. Llai, ella. Ryw benwsos fan hyn a fan draw, os 'di'n braf, 'de? Banc holides, dros y Flwyddyn Newydd, amball wic-end bach randym i ga'l brec, pan ma'r ddinas yn dechra mynd yn ormod ... *Change of plan* os 'di'n gaddo hen dywydd sâl. Mynd i'r propyrti sydd yn yr haul, 'de! Sens. Dyna fyswn inna'n neud hefyd. Mynd i chwilio am yr haul ... fatha blodyn haul.

Aros amdana chdi ydw i rŵan. Chwara mig efo fi w't ti. Mewn 'chydig funuda nei di godi dy amranna dros y gorwel, a wincio. A 'na i wincio'n ol arna chdi. Rhwng hiraeth y nos a'r rhyddhad o'i gweld hi'n ola dydd. Dwi'n casau cysgu yn yr un gwely a Tom. Teimlo fatha 'mod i ddim i fod yna. Fedra i jyst ddim setlo. Fo sy'n mynnu. Fo sydd isio i mi gysgu yna. Gneud ers wythnosa 'wan. O'dd o'n gofyn, doedd, felly o'n i'n gneud. Mae o'n ca'l yr effaith yna arna fi. O'n i'm isio inni fyw efo'n gilydd cweit eto. Do'n i'm yn teimlo'n barod. Ond mae o 'di deud wrtha fi be bynnag ... bo' ni ddim. Bo' ni ddim yn byw efo'n gilydd. Mae o'n teimlo'n saff efo fi. Fyswn i byth yn deud hynna wrtha fo. Fysa fo'm yn cyfadda. A mae o'n meddwl fod o'n edrach ar fy ôl i. Fedra i edrach ar ol fy hun. Mae o'n meddwl 'mod i'n thic. Ella 'mod i. Ydi o'n meddwl bo' fi'n llyncu bob dim mae o'n ddeud? Ydw i? Pa mor bell all petha fynd? Ma' cariad yn ymaros, a bob dim. Meddan nhw ...

Pwy bynnag ydi'r nhw 'ma.

(*Saib*)

Moorings. Ivy Dale. Sea Gulls. Mizzen Top. Ydi'r ddau yr un peth?

Saib. Ydw i 'run fath a fo?

Daw hwrdd o wynt. Mae hi bellach wedi gwawrio a'r haul yn tywynnu'n gryf.

Shân: (*yn cysgodi ei llygaid rhag yr haul*) Dyma chdi o'r diwadd.

Daw Ramin ar y llwyfan. Mae Shân yn ei weld yn syth, ond tydi o ddim yn ei gweld hi. Mae Ramin yn edmygu'r wawr am ychydig funudau, yn cau ei lygaid a theimlo'r pelydrau ar ei wyneb. Yna mae'n tynnu ei ffon o boced ei got a thynnu llun. Nid yw Shân yn tynnu ei llygaid oddi arno, gan astudio pob symudiad. Pan mae Ramin yn troi i ddechrau cerdded, mae Shân yn ceisio cuddio ei hun yn y twyni.

Wrth i Ramin gerdded ar hyd y traeth mae'n ei gweld. Edrycha o'i gwmpas.

Ramin: Bore da.

Shân: Helo. Bora da.

Ramin: Sori, mae hyn yn *rude* iawn. 'Sgen ti ddim *skins*, ma' siŵr?

Shân: Ym. Sori ...

Ramin: *Skins?* (*Mae'n ystumio rowlio smoc*)

Shân: O! Rizla? Sori, Rizlas. Rizlas o'dd Taid yn galw nhw.

Ramin: Chdi sy'n iawn. Dyna ydi eu henw nhw go iawn.

Shân: Reit.

Ramin: Hen slang gwirion gen i.

Shân: Na, fi sy ddim callach.

Ramin: 'Na i gymryd felly nad w't ti'n smocio, a 'sgen ti ddim ... Rizlas?

Mae'r ddau yn chwerthin yn lletchwith.

Shân: Na. Sori.

Ramin: Chdi 'di'r calla, 'sti.

Shân: Gwbod!

Mae Ramin yn chwerthin eto, nid yn lletchwith y tro hwn.

Saib.

Ramin: Wel. Sori i styrbio chdi.

Mae'n dechrau cerdded. Mae Shân yn gadael iddo fynd o'i blaen, ac yn sydyn daw rhywbeth drosti.

Shân: Lle gei di rei rŵan?

Mae Ramin yn aros.

Ramin: Siop?

Shân: Fydd siop bentra ddim yn gorad 'wan.

Ramin: 'Di arfar efo'r siopa 24 hours 'ma, 'sti!

Shân: Do's 'na'm un o rheiny'n fa'ma.

Ramin: Nag o's.

Shân: Fydd siop bentra'n gorad am hanner awr wedi saith.

Edrycha Ramin ar ei oriawr.

Ramin: Be 'na i tan hynny?

Saib.

Shân: Tynnu llunia?

Mae'n amneidio tuag at ei ffon.

Ramin: Ti ddim yn aros i'r siop agor?

Shân: (*yn chwerthin*) Nadw.

Ramin: Be ti'n neud yma? Mor fora?

Shân: Methu cysgu.

Ramin: *Standard.*

Shân: Dwi'n dod 'ma lot, deu' gwir. Yn y bora. Ac yn y nos. Wrth iddi fachlud, ac wrth iddi wawrio ...

Ramin: Mynd ar ol yr haul w't ti?

Shân: Ia, ma' siŵr, 'de? *Mae'n gwenu wrthi hi ei hun.*

Ramin: Ti'n byw 'ma?

Shân: Nabod y lle yn well na'r crycha ar fy llaw.

Ramin: Mae'n styning yma. (*yn dweud wrtho'i hun*) Mae o'n hafan ...

Shân: Ti'n byw 'ma? Dw't ti ddim o fa'ma'n wreiddiol.

Ramin: Mor amlwg a hynny, ydw i?

Shân: Jest 'rioed wedi dy weld di o'r blaen.

Ramin: Dros dro fydda i yma.

Shân: 'Mond dros dro?

Mae rhywbeth tu mewn iddi yn siomedig wedi clywed hyn.

Ramin: Ia.

Shân: Lle ti'n aros?

Mae Ramin yn oedi.

Shân: Paid a phoeni, wna i ddim dy *stalkio* di.

Ramin: Na, na. Sori. Yn un o'r tai bach 'na fan'cw. (*Mae'n pwyntio*)

Shân: Blydi hel. Yn rheina? Hofal! Ond chei di'm golygfa well yn y byd yn grwn.

Ramin: Lle ti'n byw?

Shân: Fi? *Saib.* Alla i'm deud 'mod i'n byw —

Ramin: Ti ddim isio datgelu chwaith!

Shân: Lon Terfyn. Yn un o'r fflatia 'na. Rhif 3. Fan'na dwi'n treulio dipyn o'n amsar.

Ramin: W't ti'n ... ti'n fodlon gneud ffafr i fi?

Edrycha Shân arno yn amheus.

Ramin: Ti'n meddwl fysa chdi'n gallu mynd i'r siop drosta i? A fyswn i'n dy gyfarfod di'n fa'ma wedyn?

Mae Shân yn meddwl.

Shân: Iawn.

Ramin: Wir? Do'n i'm yn disgwl i chdi gytuno.

Shân: Dwi'n dallt. 'Na i dy helpu di.

Ramin: Be ydi dy enw di?

Shân: Shân.

Ramin: Ramin.

Golau'n pylu.

Golau'n codi.

Fflat Tom. Eistedda Tom ar y gwely. Mae'n gwisgo crys a thei. Mae'n cyfri bwledi ac yn eu cadw mewn bocs bach metel.

Daw Shân i mewn. Mae'n cario bagiau eto.

Tom: W't ti 'di bod yn chwara efo rhein?

Shân: Efo be?

Tom: Rhein. *(Mae'n ysgwyd y tun)*

Shân: Naddo.

Tom: Paid a phoeni. O'n i'n meddwl bod 'na fwy, dyna i gyd.

Shân: Fyswn i'm yn twtsiad nhw.

Saib.

Mae Shân yn estyn planhigyn cactws o un o'r bagiau. Edrycha o gwmpas yr ystafell, cyn penderfynu ei roi ar y silff o dan y ffenest.

Tom: Be 'di hwnna?

Shân: Cactys.

Tom: Cactys?

Shân: Ia.

Tom: I be o'dd isio prynu wbath fel'na? Dod a mwy o gachu i'r lle 'ma.

Shân: Does 'na fawr o stwff yma be bynnag, Tom.

Edrycha Tom o gwmpas yr ystafell.

Tom: Nag o's. Ti'n iawn 'fyd.

Shân: Ar y Maes ges i o.

Tom: Pam hwnna?

Shân: Pam ddim?

Tom: Wbath mor hyll.

Mae'n edrych ar y cactws.

Shân: Dwi'n licio eu dygnwch nhw. A do's 'na'm lot o waith efo nhw. Gallu goroesi ar ben eu hunain, dim ots be 'di'r elfenna o'u cwmpas nhw.

Tom: Be sy'n bod ar floda normal?

Shân: Gwywo. Marw'n ara bach. Dwi'm yn licio gweld bloda'n marw.

Tom: Neisiach i edrach arnyn nhw.

Shân: Pan ma' nhw'n ffres. Ma' 'na floda'n gallu tyfu oddi ar gactys 'fyd.

Tom: Dyfan nhw ddim allan o hwnna, na nawn! Pwy o'dd yr idiyt nath werthu hwn i chdi? A trio gwerthu'r bwlshitt 'na i chdi?

Shân: 'Udodd o ddim byd wrtha i.

Tom: Fedra i dy weld di yna 'wan. Chditha mor barod i lyncu be mae o'n ddeud. Typical.

Saib.

Mae hyn wedi gwylltio Shân.

Shân: Prynu fo i ni 'nes i. 'Na i ddim trafferthu tro nesa.

Mae'n gadael yr ystafell i fynd i'r gegin.

Tom: Shân.

Saib.

Tom: Shân!

Daw Shân yn ol i'r ystafell.

Shân: Ti 'di bod yn y gegin heddiw?

Tom: Pam?

Shân: W't ti 'di bod yna? Yr ogla ...

Tom: Pa ogla?

Shân: Ogla ll'godan.

Tom: E? Paid a malu am y blydi llygod 'ma eto.

Shân: 'Di marw. Ogla ll'godan 'di marw 'di o.

Tom: Be sy'n bod arna chdi?

Shân: Dwi'n cofio'r un ogla yn tŷ Nain erstalwm. Hen ogla melys, fatha stwffin. Ogla sy'n gynnas. Mae o'n mynd drwyddda fi.

Tom: Yn dy feddwl di mae o.

Shân: Sut fedar ogla fod yn fy meddwl i?

Tom: O'dda chdi'n dychmygu eu sŵn nhw'n amlwg.

Mae Tom yn codi i fynd i'r gegin. Daw yn ol.

Tom: Dwi'm yn ogleuo fo.

Shân: Ma' raid bo' chdi!

Tom: Be ti'n drio'i neud, Shân?

Shân: Dim. Dwi'm yn trio gneud dim. Ond ma'r ogla yna a rhaid ca'l gwarad ohono fo.

Mae Tom yn ochneidio.

Tom: Rhyngtha chdi a dy betha.

Shân: Ti'm yn fy nghoelio i?

Saib.

Nid yw Tom yn ei hateb. Eistedda ar y gadair a dechrau fflicio drwy'r sianeli teledu.

Shân: Fydd y Newyddion 'wan, ma' siŵr.

Pennawd: Mae protestiadau heddwch yn cael eu cynnal ar hyd dinasoedd y wlad heno, yn erbyn mesurau'r Llywodraeth ynglŷn a mewnfudo a pharch i ferched, yn dilyn rhai o sylwadau'r Arlywydd — Mae Tom yn diffodd y teledu.

Shân: Hei.

Tom: Dim ond cachu.

Shân: Wbath positif am unwaith.

Tom: Positif? 'Chydig o bansis yn martsio efo darna o gardbord a sbloets o baent?

Shân: Ma' nhw'n trio gneud gwahaniaeth.

Tom: Ti'n meddwl bod eu slogans *pretentious* nhw yn mynd i achub y byd? Os ti'n coelio hynna ti'n fwy thic nag o'n i'n feddwl. Ma' nhw'n gofyn amdani. Fel hyn ma' reits yn cychwyn, a pobol erill – pobol fel ni – sy'n goro diodda'r *shitstorm* wedyn.

Shân: Riots? Protestiadau heddychlon 'dyn nhw.

Tom: Ma' 'na ddisastyr a reits 'di digwydd mewn protestiadau heddychlon o blaen. 'Dyn nhw'm ffit.

Shân: Rho teledu 'nol mlaen, plis.

Tom: G'na be fynni di. Dwi'n mynd i pyb efo'r hogia.

Golau'n pylu.

Golau'n codi.

Yn dal yn y fflat. Dim ond Shân sydd ar y llwyfan.

Mae'n cerdded allan o'r gegin yn tuchan ac ochneidio, yn amlwg yn ffieiddio at yr arogl.

Cerdda o gwmpas yr ystafell ger y waliau, yn ceisio gwrando.

Shân: Distaw, distaw bach. Dim sŵn ddim mwy. Mor ddistaw a ll'godan eglwys.

Cerdda at y cwpwrdd bach ac agor y ddror lle mae Tom yn cadw'r gwn a'r bwledi. Estynna'r tun metel allan o'r ddror a'i ysgwyd. Mae'n chwerthin.

Shân: Fatha'r tun o'dd yn dal baco Taid erstalwm.

Mae'n mynd i eistedd ar y llawr efo'r tun. Mae'n estyn y bwledi a'u gosod fesul un mewn rhes ar y llawr.

Mae'r golau'n pylu'n araf.

Y twyni ar y traeth.

Mae'r haul ar fin machlud. Mae Ramin yn sefyll ger y twyni, yn edrych tuag at y môr.

Mae Shân yn cyrraedd gyda bag plastig. Mae Ramin yn ei gweld.

Ramin: Do'n i ddim yn disgwyl i chdi ddod.

Shân: Doedda chdi ddim yn meddwl byswn i'n cadw at fy ngair?

Mae'n ysgwyd ei ben.

Shân: Wel, dw't ti ddim yn fy nabod i'n dda iawn eto, nag wyt.

Ramin: Newydd gyfarfod ydan ni.

Shân: Ia. Ond naethon ni gytuno i fod yn ffrindia.

Ramin: Do?

Shân: Wel. 'Nes i benderfynu y bysan ni 'ta.

Mae Ramin yn gwenu.

Mae'n rhoi'r bag iddo. Estynna am y baco a dechrau rowlio sigaret.

Ramin: Ti isio un?

Ysgydwa ei phen.

Shân: Ty'd. Awn ni i ista yn y dwan.

Ramin: *(Mae dryswch ar ei wyneb)* Dwan?

Shân: Ia. Dwan. Fa'ma. *(Eistedda yn y twyni)*

Ramin: O! Twyni. *Sand dunes.*

Shân: Ia!

Mae Ramin yn gyndyn o fynd i eistedd.

Ramin: Be am y nadroedd?

Shân: Nadroedd?

Ramin: Dwi 'di clwad am dipyn o bobol yn ca'l eu brathu ... gan nadroedd mewn twyni tywod.

Shân: *(Meddylia am hyn am ennyd)* Ella bo' nhw'n cysgu. Heibernetio!

Mae'n mynd i eistedd ati.

Shân: Jest ... watsia dy din.

Shân: Pam bo' chdi'n cuddio 'ta?

Mae Ramin yn edrych arni.

Ramin: Sori. Ddylsa 'mod i heb ofyn i chdi fynd i'r siop drosta i. *(Mae'n taflu'r sigaret)* Ti 'di gneud mwy na digon i mi'n barod. Sori.

Mae Ramin ar fin gadael.

Shân: Hei! Stopia.

Ramin: Dwi'm isio dy dynnu di mewn i hyn.

Shân: Dwi ynddo fo'n barod! 'Di mynd yn rhy bell ar y tren rŵan.

Ramin: 'Mond neidio i ffwrdd sydd isio chdi.

Shân: A marw?

Mae Ramin yn pwylo.

Shân: Fedri di drystio fi. Wir. Siarada efo fi.

Ramin: Ti'n gwbod y stori ... be 'di be. Dros y newyddion i gyd. Nid fi 'di'r cynta a nid fi fydd yr ola chwaith. Chwilio am bobol fel fi.

Shân: A ti'n gwbod hynna? Bo' nhw'n chwilio amdana chdi?

Ramin: Gen i ffrindia hefyd, sy wedi ca'l eu hel o 'ma yn barod.

Shân: Wedi eu deportio?

Ramin: Mm.

Shân: Ond pam? Dwi'm yn dallt.

Ramin: Do's 'na'm byd i'w ddallt. Dydyn nhw ddim isio ni yma. Ddim isio pobol ddiarth, yma.

Shân: Be fedar rhywun ei neud? Rhywun i gysylltu efo'r Swyddfa Gartref?

Ramin: Dim pwynt. Siŵr eu bod nhw'n mwynhau gweld lliw ein tinau ni.

Shân: Be fysa'n digwydd i chdi?

Ramin: Ca'l fy arestio gynta. Mynd i Yarl's Wood wedyn. Ca'l fy ngyrru 'nol wedyn, yn ôl i fywyd arall – gadal y bywyd dwi 'di'i greu i fi'n hun fan hyn. Fel parsal. Wyth mlynadd dwi 'di byw 'ma. Yn y wlad yma, yng Nghymru. Dwi'n rhan o Gymru rŵan, ac ma' Cymru'n rhan ohona i. Rhwygo bywyda.

Shân: A ma' nhw ar dy drywydd di?

Ramin: Mae o'n fwy na jest fi. O'n i'n gweld hyn yn dod o bell, dyna'r peth. Dyna pam ddois i yma. Dyna o'dd y *masterplan*. Meddwl bysw'n i'n gallu cuddio —

Shân: Mewn hofal ar ben clogwyn.

Mae'r ddau yn chwerthin, ond yn difrifoli wedyn.

Ramin: Ma 'na ddiwedd i bob taith hefyd, does. Mae o'n teimlo fatha bod y *dead end* yn dod yn agosach bob dwrnod.

Shân: Dydi hyd 'n oed fa'ma ddim yn saff, 'sti. Ma' 'na elynion yn bob man.

Saib.

Ramin: Dw't ti ddim yn elyn.

Shân: Ella ddim. Ond dwi'n nabad rhei. Ac ma' rheiny hyd 'n oed yn rhy agos. Yn beryg o agos.

Ramin: Chwilio am wbath gwell ydan ni i gyd. Rwbath sy tu hwnt i ochr y wal ti arni. Ti'n gwbod? *Saib*. A ma' pawb yn sylwi, rhywbryd, nad ydi'r ochr arall yn bod.

Golau'n pylu.

Act 3

Fflat Tom. Daw Shân i'r ystafell.

Shân: Mae o 'di symud o'r gegin.

Tom: Be rŵan?

Shân: Yr ogla. Ma'r ogla 'di mynd.

Tom: Dydi o'm yna? Dw't ti'm yn seicopath yn diwadd, 'lly? 'Udis i, do.

Shân: Be?

Tom: 'Udis i mai chdi o'dd yn dychmygu petha.

Shân: Do. 'Udist ti.

Tom: Dwi'm am ga'l sws gen ti heddiw?

Mae Shân yn mynd at y ffenest a chodi'r cactws yn ei llaw, ac edrych arno.

Tom: Nac'dw?

Shân: 'Dwn i'm.

Mae Tom yn estyn y gwn.

Tom: Dwi isio dangos wbath i chdi.

Edrycha Shân yn amheus arno.

Shân: Tom, dwi'm —

Tom: Ma' rhaid i chdi ddysgu sut i amddiffyn dy hun.

Shân: Ymosod ti'n neud efo gwn, nid amddiffyn.

Tom: *(Mae'n chwerthin) Charge!*

Shân: Na, dim 'wan.

Tom: Ia. Rŵan.

Shân: Plis —

Tom: Dwi'n deud. 'Dan ni'n gneud.

Mae'n sefyll y tu ol iddi.

Tom: Ti 'di bod yn smocio?

Shân: Naddo.

Tom: Ma' 'na ogla ar dy wallt di.

Shân: Dwi heb.

Mae Tom yn dangos iddi sut i afael yn y gwn, a sut i anelu. Mae'n cymryd pleser yn ei harwain a'i dysgu. Mae Shân yn casau pob eiliad.

Tom: 'Na chdi. Da. Dim cweit fel 'na. Rhaid chdi afal ynddo fo yn gadarn. Fatha 'i fod o'n rhan ohona chdi. Cym on. 'Na chdi.

Mae Shân yn gollwng gafael ar y gwn, ond mae Tom yn gafael yn ei braich yn sydyn ac yn ei thynnu tuag ato. Mae'n dal y gwn wrth ei phen.

Shân: Tom!

Tom: Paid a cerddad i ffwrdd oddi wrtha i, 'ta.

Shân: Gad fi fynd. Dwi'm yn licio hyn.

Tom: Bang!

Shân: Fysa chdi? Fysa chdi'n fy saethu i?

Tom: W't ti'n gofyn y ffasiwn beth? Be sy'n bod arna chdi?

Shân: Ma' 'na wn yn ca'l ei bwyntio at fy mhen i, wedi'r cwbl.

Mae Tom yn ei gollwng yn rhydd.

Tom: Do's 'na'm bwledi ynddo fo. Idiyt.

Mae hi'n cerdded oddi wrtho. Mae Tom yn gwrthio'r gwn rhwng y bleindiau allan at y stryd.

Shân: Fedra i ddim.

Tom: Paid a phoeni. Mi ddaw. Mi ddoi di i ddallt.

Shân: Dim hynna o'n i'n feddwl.

Saib.

Tom: *(yn galed)* Ddim hynna dwi'n feddwl chwaith. *Saib.* Fel ddudis i. Mi ddoi di i ddallt.

Yn sydyn, mae sw'n bang byddarol. Neidia Tom ar y llawr ac ar ei gwrcwd. Mae wedi dychryn am ei fywyd.

Tom: *(yn gweiddi)* Ffacin hel! Shân! Dycia lawr, nei di!

Mae Shân yn rhyfeddol o dawel. Cerdda tuag at y ffenest ac edrych drwy'r bleindiau.

Shân: Car ... Car o'dd o. Car wedi bacffeiio.

Edrycha ar Tom sy'n un swp o ddychryn ar y llawr. Dechreua chwerthin dros y lle.

Golau'n pylu.

Golau'n codi.

Mae Tom yn sefyll ger y ffenest, yn sbio allan ar y stryd. Mae'r bleindiau ar agor. Daw Shân i mewn o'r gegin yn anniddig.

Shân: Agor y ffenest.

Tom: Ti'n gall? Ydi'r drws ochr 'na 'di cloi gen ti?

Mae'n cau'r bleindiau.

Shân: Plis. Neith o'm gweithio fel arall.

Tom: Be neith ddim?

Shân: Trio ca'l gwarad o'r ogla dwi. Mae o 'nol. Mae o yma. Yn y stafall yma.

Tom: O, blydi hel.

Shân: Mae o'n llenwi'r aer i gyd.

Tom: Dwi'n ca'l llond caets o hyn, Shân —

Shân: Y ffordd i ga'l gwarad o'na fo ydi rhoi'r gwres ymlaen yn uchaf, ac agor y ffenestri i gyd.

Tom: 'Na chdi sens os glywis i sens erioed.

Shân: Dyna ti'n goro neud! Dyna nath Nain.

Tom: Gwranda di. Uffar ots gen i be nath dy nain — ti 'di mynd yn rhy bell efo hyn 'wan. Dwi'm yn ogleuo dim — dychmygu petha w't ti. Ti angan help. Alla i'm bod efo rhywun sy mor paranoid drw'r adag.

Shân: Fi? Fi yn paranoid?

Tom: 'Dwn i'm pam bo' fi efo chdi 'di mynd. Do's 'na'm lot o gyfleoedd ar ôl gen ti efo fi, alla i'm delio efo dy shit di ddim mwy.

Shân: *(yn gweiddi)* Fedra i ddim delio efo'r ffordd ti'n fy nhrin i ddim mwy chwaith!

Mae'r ffaith iddi weiddi yn y fath fodd yn sioc i'r ddau.

Tom: lawn.

Mae'n mynd i'r gegin, a nol morthwyl neu arf tebyg.

Tom: Lle mae o 'ta? E? Cym on.

Dechreuaf falu'r llawr pren gyda'r morthwyl a thynnu darnau ohono wrth geisio edrych am gorff y llygoden.

Shân: *(yn gweiddi)* Be ti'n neud? Be ti'n neud? Stopia!

Tom: *(yn parhau i dynnu'r pren o'r llawr)* Chdi sydd isio ca'l gwarad o'r bastad. Dyna dwi'n neud. Lle mae o? Lle mae o?!

Shân: Tom!

Tom: Ti'n mynd i ddeud 'tha fi? E? Cym on!

Dechreuaf chwilio yn y cwpwrdd bach wrth ymyl y gwely. Tafla'r clustogau a'r cwilt ar y llawr nes bod yr ystafell yn llanast llwyr. Yn ei gynddaredd, wrth geisio rhwygo'r bleindiau mae'n taro'r cactws, gan grafu ei law.

Tom: Ach! Shit!

Mae Tom yn taflu'r cactws ar lawr nes bod y planhigyn, y pridd a'r potyn wedi chwalu ar hyd y llawr. Rhytha Shân ar y cactws sydd wedi chwalu.

Saib.

Rhed Shân tuag at y drws, ond mae Tom yn cyrraedd gyntaf, a'r gwn yn pwyntio tuag ati.

Tom: Ti'm yn gadal.

Shân: G'na fo 'ta. Ty'd. G'na ffafr a chdi dy hun!

Tom: Ti'n meddwl mai dyna dwi isio? Ti'm yn fy nabod i o gwbl, nag w't!

Shân: Dwi'm isio hyn. Dwi'm isio hyn, dwi'm isio chdi. Gad fi fynd.

Tom: Na! Fedri di ddim. Alla i'm bod hebdda chdi. 'Dan ni angan ein gilydd.

Shân: Dwi'n dy gasau di a dwi'n casau be ti'n gredu ynddo fo.

Yn sydyn mae'r golau'n diffodd. Mae fflachiadau llachar a synau pobl yn gweiddi — synau reiat, torri gwydr a ffrwydradau. Wrth i'r synau gynyddu'n uwch ac uwch, mae Tom yn cael braw ac yn cuddio o dan y ffenest yn ei gwman, gyda'r gwn. Nid yw'r sŵn yn effeithio dim ar Shân, sy'n dal i sefyll yn yr un man.

Mae'r synau'n dod i stop.

Dim ond sŵn Tom yn cael ei wynt ato sydd i'w glywed.

Mae choc ar y drws.

Tom: Paid atab!

Amneidia Tom at y drws a gwrando. Mae Shân yn camu ymlaen.

Tom: Paid symud modfadd.

Saib.

Mae ffon Shân yn pingio ddwywaith. Edrycha'r ddau ar ei gilydd. Wrth bwyntio'r gwn tuag ati, estynna Tom y ffon o'i phoced. Edrycha Tom ar sgrin y ffon. Mae'r tecst yn ymddangos ar y sgrin.

Ramin –

ti adra?

dwi'n clwad lleisia

Tom: Ramin?

Mae Shân yn rhewi. Mae braw yn ei llygaid.

Mae Tom yn tecstio yn ol.

Shân: Be ti 'di'i ddeud?

Shân –

'na i agor y drws rŵan

Shân: Be ti 'di'i ddeud, Tom?

Tom: W't ti'n trio'n lladd ni?

Shân: *(yn ddagreuol)* Fo 'di'r unig ffrind sy gen i.

Tom: Ffac, w't ti'n thic? Ti'm yn gwbod be mae o a'i glan afiach yn 'i gynllwynio. Ti 'di'i adal o reit i mewn, do? Gadal nhw i mewn i'n byd ni. W't ti'n sylweddoli be ti 'di'i neud? 'Dan ni reit yn llygad y storm.

Ond mi gan nhw feddwl eto. Chan nhw mohona i.

Cnoc. Mae'r ddau yn dychryn. Symuda Tom i'r naill ochr i'r drws a phwyntio ei wn, yn arwydd i Shân ei ateb. Nid yw Shân yn symud. Mae Tom yn pwyntio eto, ac mae Shân yn ildio. Agora Shân glo y drws.

Daw Ramin i mewn ar frys, ond mae'n stopio wrth weld y llanast sydd yn yr ystafell.

Amneidia Tom o'r tu ôl i'r drws.

Shân: *(yn erfyn)* Na, plis! Paid a saethu!

Edrycha Tom ar y ddau, a'r ofn yn amlwg ar eu hwynebau. Gollynga Tom ei wn ar y llawr. Mae'n chwerthin yn ddiymadferth.

Tom: Fel 'udis i. Do's 'na'm bwledi ynddo fo.

Shân: Dyna ti'n feddwl.

Tywyllwch.

Sŵn gwn yn cael ei saethu.

Sŵn glaw trwm.

Mae haul cryf yn bwrw'i lewyrch yn araf ar y llwyfan wedi'r glaw. Saif Tom a Ramin bob ochr i Shân. Mae hi'n eistedd ar y llawr ac yn edmygu'r cactws sydd yn ei llaw. Mae blodyn hardd wedi blodeuo ar ei frig.

Tywyllwch.